Cyllid & Thollau EM

Nodiadau Crynodeb o enillion cyfalaf

Y flwyddyn dreth o 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cynnwys

Trosolwg cyffredinol o enillion cyfalaf a cholledion	**CGN 2**
Asedion	CGN 2
Gwarediadau	CGN 2
Rhyddhad	CGN 3
Eich prif gartref	CGN 4
Trosglwyddo asedion rhwng personau cysylltiol	CGN 4
Trosglwyddo asedion rhwng gwŷr a gwragedd a phartneriaid sifil	CGN 5
Asedion roeddech yn eu perchen ar 31 Mawrth 1982	CGN 5
Gwaredu cyfranddaliadau neu warantau	CGN 5
Colledion caniataol	CGN 5
Enillion blynyddoedd cynharach	CGN 6
Cyfraddau Treth Enillion Cyfalaf	CGN 7
Rheolau trosiannol ar gyfer rhai enillion yn 2010-11	CGN 8
Addasiad i Dreth Enillion Cyfalaf	CGN 9
Eich cyfrifiannau	**CGN 10**
Amcangyfrifon a phrisiadau	CGN 11
Sut i wneud cais, dewis neu roi unrhyw rybudd ynglŷn â Threth Enillion Cyfalaf yn eich ffurflen dreth	CGN 11
Cwblhau tudalennau *Crynodeb o Enillion Cyfalaf*	**CGN 11**
Crynodeb o'r cyfrifiannau a amgaewyd gennych	CGN 12
Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd	CGN 14
Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd	CGN 15
Eiddo ac asedion eraill ac enillion	CGN 15
Atodiadau	**CGN 17**
Rhestr termau	CGN 17
Rhyddhad enillion cyfalaf (a dewisiadau)	CGN 19
Taflen waith ar gyfer y cyfrifiannau	CGN 21
Taflenni cymorth ar gyfer enillion cyfalaf	CGN 22

Mae'r nodiadau hyn yn rhoi:

- arweiniad cyffredinol ynghylch enillion cyfalaf
- arweiniad i'ch helpu i baratoi eich cyfrifiannau (sy'n rhaid eu cynnwys gyda'r tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf* eich ffurflen dreth)
- arweiniad i'ch helpu i gwblhau'r *Crynodeb o enillion cyfalaf* eich ffurflen dreth, a
- atodiadau sy'n cynnwys rhestr termau, manylion ynglŷn â rhyddhad a dewisiadau, rhestr o daflenni cymorth a thaflen waith ar gyfer cyfrifiannau syml ar gyfer enillion a cholledion.

Esbonnir *geiriau* ac *ymadroddion* mewn italig ym mhellach ymlaen yn y nodiadau hyn neu yn y Rhestr Termau ar dudalennau CGN 17 a CGN 18.

Trosolwg cyffredinol o enillion cyfalaf a cholledion

Weithiau mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo enillion a cholledion cyfalaf yn gymhleth ac nid yw'r nodiadau hyn yn ceisio esbonio popeth a allai effeithio ar eich cyfrifiannau enillion cyfalaf – mae llawer fwy o wybodaeth yn ein taflenni cymorth a'n llawlyfrau yn **www.hmrc.gov.uk**

Asedion

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf pan fyddwch yn gwaredu ased sy'n werth mwy pan fyddwch yn ei waredu na phan gafodd ei gaffael. At ddibenion Treth Enillion Cyfalaf, mae ased yn unrhyw ffurf o eiddo. Yr asedion mwyaf cyffredin yw:

- stociau, cyfranddaliadau ac unedau mewn ymddiriedolaeth unedol
- tir ac eiddo
- asedion busnes, fel ewyllys da.

Mae Treth Enillion Cyfalaf yn daladwy mewn perthynas a'r cynnydd mewn gwerth ased. Os gwnewch golled wrth waredu ased efallai y gallech osod y golled honno yn erbyn enillion wrth waredu asedion eraill neu ei chario ymlaen i flwyddyn dreth ddiweddarach.

Does dim rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf os yw eich enillion trethadwy ar ôl didynnu colledion caniataol am y flwyddyn, pan yn ddyledus, yn llai na'r *swm blynyddol a eithrir.* Yn 2010-11 mae'r swm blynyddol a eithrir yn £10,100.

Nid oes hawl gennych i'r *swm blynyddol a eithrir* ar gyfer 2010-11 os nad yw eich domisil yn y DU ac rydych yn hawlio y dylid eich trethu ar y sail trosglwyddo ar gyfer 2010-11. Mae fwy o wybodaeth yn y nodiadau *Preswyl, sail trosglwyddo ac ati.* Os yw hwn yn berthnasol i chi, ac rydych wedi cwblhau blwch 27 ar y tudalennau *Preswyl, sail trosglwyddo ac ati,* byddwn yn anwybyddu'r *swm blynyddol a eithrir* wrth gyfrifo swm y Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy. Os ydych wedi hawlio'r sail trosglwyddo mewn blwyddyn dreth flaenorol ac wedi trosglwyddo enillion o'r flwyddyn honno yn 2010-11, yna ni ellir gosod unrhyw *swm blynyddol a eithrir* sy'n ddyledus yn 2010-11 yn erbyn yr enillion hynny a drosglwyddir. Os bydd hyn yn berthnasol, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gynnwys addasiad ym mlwch 8 (gweler tudalen CGN 13).

Gwarediadau

Bydd ennill trethadwy neu golled ganiataol yn codi pan waredir ased. Os bydd y derbyniadau a gewch drwy waredu ased yn uwch na chost ganiataol yr ased, efallai y bydd gennych ennill trethadwy. Os ydynt yn llai na'r gost, efallai y bydd gennych golled ganiataol. Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y caiff y costau caniataol eu gostwng oherwydd cais ar gyfer rhyddhad Treth Enillion Cyfalaf mewn blwyddyn gynharach. Wedyn cyfrifir yr ennill neu'r golled gan ddefnyddio'r swm gostyngol. Gall enillion neu golledion gymryd i ystyriaeth gwerth marchnad ased os oeddech yn berchen ar yr ased ar 31 Mawrth 1982 (gweler tudalen CGN 5).

Gallwch waredu ased mewn sawl ffordd, gan gynnwys pan fydd ased neu ran o ased yn cael:

- ei werthu
- ei rhoi am ddim
- ei gyfnewid
- ei golli neu ei ddinistrio.

Y ffordd fwyaf cyffredin i waredu ased yw trwy ei werthu, ac yng ngweddill y nodiadau hyn efallai y byddwn yn cyfeirio at asedion yn cael eu gwerthu yn hytrach nag yn cael 'eu gwaredu' (ond dylech gadw mewn cof y gall ennill neu golled godi ar fathau eraill o warediadau ac nid yn unig drwy werthu). Ceir amgylchiadau llai cyffredin pan gewch eich trin fel petaech wedi gwaredu ased; er enghraifft, os cafodd gwerth eich ased ei ostwng er mwyn cynyddu gwerth ased ym mherchenogaeth rhywun arall, neu os cawsoch arian oherwydd eich bod yn berchen ar ased ac ni chodir Treth Incwm ar yr arian hwnnw. Os nad ydych yn siŵr, yna cysylltwch â ni.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Os ydych yn preswylio ac mae eich domisil yn y DU, rydych yn agored i dalu Treth Enillion Cyfalaf ar eich holl enillion cyfalaf trethadwy, gan gynnwys enillion ar asedion a leolir y tu allan i'r DU, ar ôl didynnu colledion caniataol. (Fel arfer pennir eich domisil gan y man lle eich ganed chi, neu fan geni eich tad – ond gallai fod fel arall; os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni.)

Os ydych yn preswylio ond nid yw eich domisil yn y DU mae'n rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf o hyd ar eich enillion trethadwy ar asedion a leolir yn y DU. Ond os yw'r 'sail drosglwyddo' yn gymwys i chi, byddwch yn talu Treth Enillion Cyfalaf ar enillion o asedion nad ydynt yn y DU dim ond pan drosglwyddir yr enillion hynny i'r DU. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau gall y sail drosglwyddo gael ei defnyddio'n awtomatig neu efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais ar ei gyfer, (gweler nodiadau *Residence, remittance basis etc.,* am fwy o wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau penodol efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf ar enillion a wnaed gan gwmni neu ymddiriedolaeth y mae gennych fuddiant ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys enillion a wnaed gan:
- rhai mathau penodol o gwmnïau nad ydynt wedi eu sefydlu yn y DU ac rydych chi yn gyfranogwr ynddynt, neu
- ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU a phriodolir yr enillion i chi oherwydd mai chi yw'r setlwr (mae fwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 299 *Non-residents trust and Capital Gains Tax*), neu
- ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU a phriodolir yr enillion i chi oherwydd eich bod yn fuddiolwr sydd wedi derbyn taliadau neu fuddiannau cyfalaf (mae mwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 301).

Dylech gynnwys yr holl enillion o'r fath ym mlwch 31 oni bai eu bod yn codi o enillion ymddiriedolaeth nad yw wedi'i sefydlu yn y DU ac a briodolir i chi oherwydd eich bod yn fuddiolwr sydd wedi derbyn taliadau neu fuddion cyfalaf. Dylech nodi'r enillion hyn ym mlwch 32 neu flwch 33 os derbyniwyd taliad am gyfalaf ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010. Gallwch ddidynnu colledion personol o'r enillion a gynhwysir ym mlwch 31 ond nid o flwch 32 a 33.

Rhyddhad

Caiff rhai asedion eu heithrio rhag Treth Enillion Cyfalaf, gan gynnwys:
- ceir preifat
- nwyddau personol a nwyddau sy'n werth hyd at £6,000 yr un pan fyddwch yn eu gwaredu (gweler Taflen Gymorth 293 *Chattels and Capital Gains Tax*)
- Bondiau premiwm, tystysgrifau cynilion, Bondiau Cynilion Prydeinig
- stociau neu gyfranddaliadau o fewn Cyfrif Cynilo Unigol (ISA)
- stociau llywodraeth y DU – a elwir yn giltiau neu warantau 'gilt edged'
- iawndal am anaf personol
- arian tramor at eich defnydd chi neu eich teulu y tu allan i'r DU
- enillion betio, y loteri neu'r pyllau pêl-droed
- bonysau terfynol SAYE
- iawndal am bensiynau personol a gam-werthwyd a drefnwyd o ganlyniad i gyngor anfanteisiol a roddwyd rhwng 29 Ebrill 1988 a 30 Mehefin 1994
- polisïau yswiriant bywyd a chontractau blwydd-dal gohiriedig, oni chawsant eu prynu ar unrhyw adeg am gydnabyddiaeth wirioneddol
- cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddiad Menter pan roddwyd rhyddhad Treth Incwm ar eu cyfer (a heb ei dynnu'n ôl) (gweler Taflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax*)
- cyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro a gaffaelwyd o fewn y terfynau blynyddol ac o dan rai amodau penodol (gweler Taflen Gymorth 298 *Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*) am fwy o fanylion
- bondiau corfforaethol cymwys (gweler Taflen Gymorth 285 *Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*).

Os collwch arian drwy werthu asedion a eithrir, ni ellir defnyddio'r colledion hynny i ostwng yr enillion trethadwy. (Fodd bynnag ceir rheolau arbennig ar gyfer cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddiad Menter ac unrhyw eitemau personol a gostiodd mwy na £6,000 pan gawsant eu caffael; gweler y taflenni cymorth os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.)

Eich prif gartref

Fel arfer cwmpesir unrhyw ennill sy'n codi pan werthir eich prif gartref gan ryddhad treth a elwir yn 'Rhyddhad Preswyl Preifat' (ac os gwnewch golled, ni allwch ddidynnu'r golled honno o enillion eraill). Mae fwy o fanylion yn Nhaflen Gymorth 283 *Private residence relief*. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth:

- os oedd y gerddi neu'r tiroedd, gan gynnwys y tŷ, yn fwy na hanner hectar (ychydig yn llai nag erw a chwarter)
- os defnyddiwyd rhan o'r tŷ at ddibenion heblaw fel eich cartref, er enghraifft, at ddibenion busnes
- os na ddefnyddiwyd eich tŷ fel eich cartref trwy gydol eich perchenogaeth ohono (ond gallwch anwybyddu tair blynedd olaf eich perchenogaeth ohono) gweler *Rhyddhad gosod* ar dudalen CGN 20
- os bu ail gartref gennych ac ni fu'r un a werthwyd yn brif gartref i chi trwy gydol eich perchnogaeth ohono
- os caffaeloch eich cartref drwy rodd pan hawliwyd *rhyddhad daliol ar roddion*.

Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac yn byw gyda'ch priod neu'ch partner sifil, dim ond un eiddo sy'n eiddo i'r naill neu'r llall neu'r ddau ohonoch, sy'n gymwys am ryddhad ar unrhyw un adeg.

Trosglwyddo asedion rhwng personau cysylltiol

Os byddwch yn gwaredu ased i, neu'n caffael ased oddi wrth berson cysylltiol, dylai'r pris a dalwyd cael ei ddisodli gan *werth marchnad* yr ased wrth gyfrifo eich ennill neu'ch colled. Os gwnewch golled, dim ond yn erbyn enillion a wnaethoch wrth waredu i'r un person cysylltiol hwnnw y gallwch osod y golled honno yn eu herbyn. Gelwir y rhain yn *golledion rhwystredig*. Er cânt eu cynnwys yn ffigurau eich colledion llawn, dylech gadw cofnod ar wahân ar gyfer pob colled rwystredig a gariwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach i sicrhau eich bod yn eu didynnu'n gywir o enillion yn y dyfodol.

Mae personau cysylltiol yn cynnwys:

- eich gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil (ond gweler y nodiadau ar dudalen CGN 5 ynglŷn â throsglwyddo asedion rhwng gwŷr a gwragedd a phartner sifil
- eich brodyr a'ch chwiorydd, a brodyr a chwiorydd eich priod neu'ch partner sifil
- eich rhieni, mam-gu/tad-cu neu gynteidiau eraill a rhieni nain/taid neu gynteidiau eraill eich priod neu'ch partner sifil
- eich plant a'ch disgynyddion uniongyrchol eraill chi a phlant a disgynyddion uniongyrchol eraill eich priod neu'ch partner sifil
- priod neu bartneriaid sifil unrhyw un o'r perthnasau y soniwyd amdanynt uchod
- eich partneriaid busnes a'u priod neu eu partneriaid sifil a'u perthnasau (ac eithrio caffaeliadau masnachol neu werediadau dilys o asedion y bartneriaeth)
- unrhyw gwmni y byddwch yn ei reoli, ar eich pen eich hun neu gydag unrhyw bobl arall y soniwyd amdanynt uchod
- ymddiriedolwyr unrhyw setliad lle rydych chi neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â chi yn setlwr.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Trosglwyddo asedion rhwng gŵr a gwragedd a phartneriaid sifil

Os byddwch yn gwerthu neu'n rhoi ased i'ch gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil, ac rydych yn byw gyda'ch gilydd ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn dreth, ni fydd unrhyw Dreth Enillion Cyfalaf i'w thalu. Byddwn yn ystyried eich bod yn byw gyda'ch gilydd oni bai eich bod wedi gwahanu'n gyfreithiol a bod y gwahanu yn debygol o fod yn barhaol. Rydym yn trin y *derbyniadau o'r gwerthiant* fel na phetai'r swm a gewch yn peri ennill neu golled. Fodd bynnag, bydd eich gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil yn defnyddio cyfanswm eich costau i gyfrifo eu hennill neu eu colled pan fyddant yn gwaredu'r ased ac yn talu treth ar unrhyw ennill dros gyfnod llawn y berchenogaeth (eich un chi a'u perchenogaeth nhw) pan fyddant yn gwerthu'r ased ym mhen hir a hwyr. Mae fwy o fanylion ynglŷn â hyn ar gael yn Nhaflen Gymorth 281 *Husband and wife, civil partners, divorce, dissolution and separation.*

Asedion roeddech yn eu perchen ar 31 Mawrth 1982

Os gwaredwch ased yr oeddech yn ei berchen ar 31 Mawrth 1982, cyfyngir yr enillion neu'r colledion i'r ennill neu'r golled ers y dyddiad hwnnw. Cyfyngir yr enillion neu'r colledion ar yr holl asedion yr oeddech yn eu perchen ar y dyddiad hwnnw trwy gyfeirio at eu gwerth y pryd hwnnw, yn hytrach na defnyddio eu cost hanesyddol.

Gwaredu cyfranddaliadau neu warantau

Mae rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn pan fyddwch yn gwaredu cyfranddaliadau neu warantau sy'n cysylltu gwarediad cyfranddaliadau neu warantau gyda chaffaeliad cyfranddaliadau neu warantau. Nid yw'r nodiadau hyn yn cwmpasu'r rheolau hynny'n fanwl. Mae Taflen Gymorth 284 *Shares and Capital Gains Tax* yn rhoi fwy o fanylion ond yn gyffredinol cewch eich trin fel petaech wedi gwaredu cyfranddaliadau yn y drefn ganlynol:

- yn gyntaf, cyfranddaliadau a gaffaelwyd ar yr un diwrnod â'r gwarediad (rheol 'yr un diwrnod')
- yn ail, cyfranddaliadau a gaffaelwyd yn y 30 diwrnod yn dilyn diwrnod y gwarediad (rheol 'gwely a brecwast') ar yr amod eich bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar adeg y caffaeliad os oedd y caffaeliad perthnasol ar neu ar ôl 22 Mawrth 2007
- yn drydydd, pob cyfranddaliad o'r un dosbarth yn yr un cwmni (rheol 'Daliad Adran 104')
- yn olaf, os ydy'r rheolau uchod heb ddihysbyddu'r cyfranddaliadau a waredwyd, caiff y cyfranddaliadau sydd ar ôl eu cysylltu â chaffaeliadau hwyrach, gan gymryd yr un cynharaf yn gyntaf.

Colledion caniataol

Os ydy cyfanswm costau ased yn uwch na'r derbyniadau gwaredu byddwch wedi gwneud colled. Fel arfer er mwyn i golledion cael eu caniatáu rhaid gwneud cais amdanynt (gweler isod). Gellir didynnu cyfanswm colledion caniataol 2010-11 o gyfanswm yr enillion trethadwy am yr un flwyddyn. Cyfyngir ar rai colledion a elwir yn *golledion rhwystredig* (gweler tudalen CGN18), y gellir eu gosod yn erbyn enillion o fath penodol. Ac ni all unrhyw golled sy'n deillio o ganlyniad i gynllun osgoi treth fod yn golled ganiataol.

Mae rheolau arbennig yn bodoli ar gyfer pennu colledion caniataol pan fydd y *sail drosglwyddo* yn gymwys. Os na fyddwch yn gwneud dewis yn y flwyddyn gyntaf er mwyn hawlio'r *sail drosglwyddo*, ni fydd unrhyw golledion ar asedion y tu allan i'r DU yn y flwyddyn honno neu flynyddoedd dilynol yn golledion caniataol. Os byddwch yn gwneud dewis (gweler CGN 11 am fanylion ynglŷn â sut i wneud y dewis yn eich ffurflen dreth) yna caniateir 'colledion tramor' yn erbyn enillion trethadwy o'r un flwyddyn (yn amodol ar rai rheolau penodol ynglŷn â threfn) ond ni ellir eu caniatáu yn erbyn enillion o flwyddyn gynharach sy'n cael eu trethu ar y sail drosglwyddo ym mlwyddyn y golled neu mewn blwyddyn ddiweddarach, gweler **www.hmrc.gov.uk** am ragor o fanylion.

Pan fo colledion sy'n codi wrth werthu asedion yn cael eu hystyried wrth i chi gyfrifo'r ennill llawn pan fyddwch yn hawlio Rhyddhad Mentrwr ar ei gyfer, ni fydd y golled honno yn cael ei hystyried yn golled ganiataol, sydd ar gael i'w gosod yn erbyn enillion eraill. Gweler Taflen Gymorth 275 *Entrepreneurs' relief* a'r arweiniad ar dudalen CGN13 ynglŷn â chwblhau blwch 6.

Os yw'r colledion yn uwch na'r enillion, bydd gennych golledion i'w cario ymlaen i'w didynnu o enillion yn y dyfodol. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig gallwch wneud cais i osod y golled yn erbyn incwm o'r un flwyddyn neu'r flwyddyn flaenorol (Mae fwy o wybodaeth i'w gael yn Nhaflen Gymorth 286 *Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subsribed for in qualifying trading companies* a Thaflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax)*.

Pan fyddwch yn didynnu colledion a ddygwyd ymlaen, o enillion mewn blwyddyn ddiweddarach (ar ôl gosod colledion o'r un flwyddyn, yn gyntaf), dylech ddefnyddio digon o golledion a ddygwyd ymlaen yn unig i ostwng yr enillion, i'r *swm blynyddol a eithrir.* Rhaid defnyddio colledion a ddygwyd ymlaen o 1996-97 a blynyddoedd diweddarach cyn gosod colledion o 1995-96 a blynyddoedd cynharach.

Mewn rhai amgylchiadau prin gallwch gario colledion yn ôl i'w gosod yn erbyn enillion blynyddoedd cynharach. Os hoffech wybod rhagor ynghylch cario colledion yn ôl, neu os oes gennych golledion masnachu sy'n uwch na'ch incwm trethadwy (gweler Taflen Gymorth 227 *Losses*) ac rydych am osod rhai colledion neu'r holl golledion hynny yn erbyn eich enillion cyfalaf, cysylltwch â ni.

Rhaid ein hysbysu am golledion a wnaed ers 1996-97 o fewn pedair mlynedd o ddiwedd y flwyddyn dreth y maent yn deillio ynddi. Gan fod hysbysiad o'r fath yn cael ei drin fel petai'n gais, bydd y nodiadau hyn yn cyfeirio at 'gais' am golled. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau tudalennau *Crynodeb o Enillion Cyfalaf* eich ffurflen dreth gan wneud eich cais/ceisiadau'n glir yn y cyfrifiad a amgaeir gennych. Mae'r arweiniad nes ymlaen yn y nodiadau hyn yn esbonio sut y gellir didynnu colledion o enillion unwaith y cânt eu hawlio. Y dyddiad diweddaraf ar gyfer hawlio colledion 2010-11 yw 5 Ebrill 2015. Nid oedd rhaid hawlio colledion a wnaed yn 1995-96 a blynyddoedd cynharach – cânt eu dwyn ymlaen bob blwyddyn tan iddynt gael eu defnyddio (ond dim ond ar ôl i golledion 1996-97 a blynyddoedd diweddarach gael eu defnyddio).

Ni allwch ddidynnu colledion personol oddi wrth enillion ymddiriedolaeth nas sefydlwyd yn y DU, a briodolwyd i chi oherwydd eich bod yn fuddiolwr ac wedi derbyn taliadau neu fuddion cyfalaf. Dylech gynnwys enillion o'r fath ym mlwch 32 neu 33 gan nodi unrhyw swm ychwanegol o dreth ym mlwch 9. Gall Taflen Gymorth 301 *Beneficiaries receiving capital payments from non-resident trusts: calculation of the increase in tax charge* eich helpu i gwblhau'r blychau hyn.

Gallwch ddidynnu colledion personol o enillion ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU sy'n cael eu trethu arnoch chi fel setlwr.

Enillion blynyddoedd cynharach

Gallai rhai enillion a wnaed cyn 2010-11 fod yn agored i dreth yn 2010-11. Rhaid i chi gynnwys yr enillion hyn ym mlwch 31. Er enghraifft:

- hawliwyd rhyddhad treigl wrth brynu ased treigledig, gweler Taflen Gymorth 290 *Business asset roll-over relief*, neu
- hawliwyd rhyddhad daliol ar roddion wrth drosglwyddo ased i chi ac rydych wedi dod yn ddibreswyl, gweler Taflen Gymorth 295 *Relief for gifts and similar transactions*, neu
- gohiriwyd ennill o ganlyniad i ad-drefnu cyfranddaliadau a ddyroddwyd bondiau corfforaethol cymhwysol i chi, gweler Taflen Gymorth 285 *Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*, neu

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

- hawliwyd gohiriad o'r ennill ar danysgrifiad am Gynlluniau Buddsoddiad Menter neu gyfraniadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro, gweler Taflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax* neu Daflen Gymorth 298 *Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*, neu
- cronnodd ennill yn 2006-07, 2007-08, 2008-09 neu 2009-10 pan ystyriwyd eich bod yn 'ddibreswyl dros dro', gweler Taflen Gymorth 278 *Temporary non-residents and Capital Gains Tax*.

Mae'r adran nesaf yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â chyfraddau Treth Enillion Cyfalaf. Bydd y gyfradd/cyfraddau Treth Enillion Cyfalaf ar ennill a wnewch mewn blwyddyn gynharach, gan gynnwys enillion a ostyngwyd gan ⅘ ar gyfer Rhyddhad Mentrwr, pan fo'r tâl ar yr ennill hwnnw wedi ei ohirio tan 2010-11 y gyfradd/cyfraddau ar yr adeg pan ddaw'r gohiriad i ben ac mae'r ennill yn dod yn agored i dreth. Bydd enillion ar warediadau cyn 23 Mehefin 2010 sy'n cael eu gohirio tan 23 Mehefin 2010 neu'n hwyrach felly'n agored i Dreth Enillion Cyfalaf ar y cyfraddau 18% neu 28%, yn yr un ffordd ag y mae enillion sy'n codi ar warediadau ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Cyfraddau Treth Enillion Cyfalaf

Newidiodd cyfradd Treth Enillion Cyfalaf yn ystod 2010-11. Pan fo'r *dyddiad gwerthu* cyn 23 Mehefin 2010 trethir yr enillion ar 18%. Pan fo'r *dyddiad gwerthu* ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010, mae'r enillion yn agored i dreth fel a ganlyn:

- 18% pan fo cyfanswm eich incwm a'ch enillion cyfalaf trethadwy ar ôl yr holl ddidyniadau caniataol (gan gynnwys colledion, lwfans personol Treth Incwm a'r *swm blynyddol a eithrir*) yn llai na therfyn uchaf haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm (£37,400 ar gyfer 2010-11 oni bai fod y terfyn hwn wedi ei ymestyn ar gyfer taliadau rhodd cymorth neu rai cyfraniadau pensiwn penodol)
- 28% pan nad ydych yn hawlio Rhyddhad Mentrwr.

Pan fo'r dyddiad gwerthu ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010 mae enillion sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr yn agored i dreth ar 10% (oni bai fod hwn yn ennill sy'n deillio o flwyddyn gynharach, gweler uchod).

Wrth gyfrifo p'un a yw unrhyw enillion yn agored i dreth ar 18% neu 28% rhaid i chi osod enillion sy'n codi ar ôl 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr yn erbyn eich haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm mewn blaenoriaeth i enillion cyfalaf eraill. Felly, os yw eich incwm a'ch enillion yn gymwys am Ryddhad Mentrwr ar ôl i'r holl ddidyniadau ddihysbyddu terfyn yr haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm yna codir treth ar 28% ar bob ennill arall. Wrth gyfrifo faint o'ch haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm a ddefnyddiwyd ni fyddwch yn cymryd i ystyriaeth unrhyw enillion sy'n codi cyn 23 Mehefin 2010. Mae enghraifft 1 ar dudalen CGN 8 yn dangos sut mae hyn yn gweithio.

Gallwch gyfrifo eich incwm trethadwy a faint o'ch haen gyfradd sylfaenol sydd ar gael drwy ofyn i'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg am gopi o *Nodiadau ar gyfer Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth*. Bydd hwn yn dangos sut fyddwn yn cyfrifo'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy ar sail yr hyn a gofnodwyd ar eich ffurflen dreth. Mae Taflen Waith wedi ei chynnwys yn y *Nodiadau ar gyfer Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth* sy'n amlinellu'r camau yn y cyfrifiad Hunanasesiad, gan gynnwys yr elfen Enillion Cyfalaf. Byddwn yn cyfrifo hwn ar eich cyfer os byddwch yn cyflwyno ar-lein. Gweler y canllaw *Sut i gwblhau eich ffurflen dreth* i gael mwy o wybodaeth ynghylch cyflwyno ar-lein. Bydd angen i chi wybod sut fyddwn yn cyfrifo'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy pan fo rhaid i chi gynnwys addasiad i'r swm hwn ym mlwch 8 o'r tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*, gweler tudalen CGN 9.

Wrth gyfrifo'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy, gallwch ddidynnu colledion a'r *swm blynyddol a eithrir* (pan fo'n ddyledus) yn y ffordd sy'n isafu'r dreth sy'n ddyledus oni bai fod rheol benodol sy'n cyfyngu ar sut y gellir eu didynnu, er enghraifft ar gyfer *colledion rhwystredig*.

Enghraifft 1

Rydych yn gwerthu ased ym mis Mai 2010 ac yn gwneud ennill cyfalaf sy'n drethadwy o £17,000. Ym mis Tachwedd 2010 rydych yn gwerthu ased arall, gan wneud ennill cyfalaf o £25,100. Does dim enillion caniataol gennych i'w gosod yn erbyn yr enillion hyn. Nid oes un o'r enillion yn cymhwyso ar gyfer Rhyddhad Mentrwr. Mae gennych hawl i'r *swm blynyddol a eithrir* o £10,100. Mae eich incwm trethadwy ar ôl caniatáu didyniadau a lwfans personol yn £27,400; terfyn uchaf yr haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm yw £37,400.

Ennill mis Mai

Cododd yr ennill trethadwy o £17,000 cyn i'r cyfraddau newid ar 23 Mehefin 2010 ac felly mae'n agored i dreth ar 18%. Ni chaiff ei ystyried wrth gyfrifo faint o'r haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm sydd ar gael i'w gosod yn erbyn enillion cyfalaf.

Ennill mis Tachwedd

Cododd yr ennill trethadwy o £25,100 ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010, felly mae'n rhaid i chi gyfrifo faint o'r haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm sydd ar gael i'w gosod yn erbyn enillion cyfalaf.

Terfyn uchaf yr haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm yw	£37,400
Llai Incwm trethadwy	£27,400
Yr haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm sydd ar gael ar gyfer enillion yw	£10,000

Mae'r ennill o £25,100 yn fwy na'r haen gyfradd sylfaenol sydd ar gael, ac felly trethir rhan o'r ennill ar 28%. Mae'n fanteisiol i osod y *swm blynyddol a eithrir* yn erbyn yr ennill hwnnw, nid yr un ym mis Mai.

Ennill trethadwy	£25,100
Llai'r swm blynyddol a eithrir	£10,100
Ennill trethadwy	£15,000
Ennill a drethwyd ar 18% (hyd at yr haen gyfradd sylfaenol ar gyfer Treth Incwm sydd ar gael)	£10,000
Ennill a drethwyd ar 28% (unrhyw enillion sy'n fwy na'r haen gyfradd sylfaenol)	£ 5,000

Os gwnaethoch ennill o £20,000 hefyd ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr rhaid gosod hwn yn erbyn unrhyw haen gyfradd sylfaenol sydd heb ei defnyddio cyn enillion anghymwys. Yn yr enghraifft uchod byddai enillion cyfalaf eraill o £15,000 yn drethadwy ar 28% gan fod yr ennill cyfalaf o £20,000 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr yn defnyddio'r gyfran sy'n weddill o'r haen gyfradd sylfaenol (£10,000).

Byddwn yn cyfrifo swm y Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy ar eich cyfer, ar sail ar yr hyn a gofnodwyd ar eich tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*, ond gweler tudalen CGN 9 ar gyfer yr adegau pan allai fod angen i chi addasu ein cyfrifiad o'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy.

Rheolau trosiannol ar gyfer rhai enillion yn 2010-11

Mae rheolau trosiannol yn bodoli ar gyfer 2010-11 er mwyn rhoi cyfarwyddyd ynghylch p'un a ddylid trin rhai enillion penodol fel petaent wedi codi cyn 23 Mehefin 2010, neu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae rheolau trosiannol yn gymwys i:

- enillion sy'n cael eu trin fel petaent yn cronni pan fo unigolyn yn dychwelyd i'r DU yn dilyn cyfnod dibreswyl dros dro
- enillion sy'n cael eu trin fel petaent yn cronni i unigolyn nad yw ei ddomisil yn y DU yn dilyn cyfnod dibreswyl dros dro
- enillion sy'n cael eu trin fel petaent yn cronni i setlwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU
- enillion sy'n cael eu trin fel petaent yn cronni i fuddiolwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU.

Os yw un o'r uchod yn gymwys yna dylech chwilio am arweiniad pellach yn Llawlyfr Capital Gains ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk**

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Addasiad i Dreth Enillion Cyfalaf

Does dim angen i chi ddarllen yr adran hon oni bai:

- bod gennych ennill cyfalaf sydd â Rhyddhad credyd treth dramor (gweler Taflen Waith 261). Ni fyddwn yn gwybod pa enillion fydd yn gymwys am Ryddhad credyd treth dramor ac felly ni fyddwn yn gallu cyfrifo'r dull mwyaf manteisiol o ddidynnu *colledion a'r swm blynyddol a eithrir* er mwyn isafu'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy
- bod gennych ennill cyfalaf sy'n cynnwys rhwymedigaeth ychwanegol mewn perthynas ag ymddiriedolaethau dibreswyl neu breswyl deublyg (gweler nodiadau ar gyfer blwch 9 a Thaflen Gymorth 301). Ni fyddwn yn gwybod o'r hyn a gofnodwyd gennych ar y tudalennau Crynodeb o enillion cyfalaf pa enillion sy'n destun rhwymedigaeth ychwanegol ac felly ni fyddwn yn gallu cyfrifo'r dull mwyaf manteisiol o ddidynnu *colledion a'r swm blynyddol a eithrir* er mwyn isafu'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy
- eich bod wedi hawlio'r sail drosglwyddo mewn blwyddyn gynharach ac yn 2010-11 mae gennych hawl i'r *swm blynyddol a eithrir* ac rydych wedi trosglwyddo enillion y flwyddyn gynharach honno. Os felly, ni allwch ddidynnu'r *swm blynyddol a eithrir* ar gyfer 2010-11 o'r enillion hynny
- bod gennych golledion rhwystredig y gellir ei didynnu o enillion penodol ond mae'r colledion hyn wedi eu cynnwys ym mlwch 6 (ni ellir cynnwys colledion o'r fath ym mlwch 7 oni bai y gellir ei defnyddio yn y flwyddyn dreth).

Mae'r nodiadau ar dudalen CGN 7 yn esbonio y byddwn yn cyfrifo'r Dreth Enillion Cyfalaf sydd arnoch ar sail yr hyn a gofnodwch ar y tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*, a sut y gallwch gyfrifo faint bydd y swm hwnnw. Yn yr achosion a ddangosir uchod, efallai na fydd y ffordd rydym yn cyfrifo'r Dreth Enillion Cyfalaf yn cyfrifo swm y dreth a godir yn gywir. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud addasiad i'r dreth a godir fel arall gan nad oedd yn bosibl dod i'r casgliad hwnnw o'r ffigurau eraill mewn blychau ar eich ffurflen dreth. Dylech gynnwys unrhyw addasiad ym mlwch 8.

Gall unrhyw addasiad naill ai gynyddu (er enghraifft, pan fo cyfyngiad ar gyfer colledion rhwystredig) neu ostwng swm y Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy gennych o'i gymharu â'n cyfrifiad ni. Pan fod angen mwy nag un addasiad, yna dim ond yr addasiad net y dylid ei nodi ym mlwch 8. Rhaid i chi esbonio yn eich cyfrifiannau sut y cyfrifwyd unrhyw addasiad.

Mae Enghraifft 2 isod yn dangos sut allai fod angen cofnod ym mlwch 8 gan ystyried mai *colledion rhwystredig* yw'r rheswm am yr addasiad.

Enghraifft 2

Mae'r hyn a gofnodwyd gennych ar y dudalen *Crynodeb o enillion cyfalaf* yn dangos bod cyfanswm eich enillion cyn 23 Mehefin 2010 (ym mlwch 3) yn £30,100 a'r colledion am y flwyddyn (ym mlwch 6) yn £10,000.

Buaswn yn cyfrifo eich enillion a'r Dreth Enillion Cyfalaf fel a ganlyn:

Cyfanswm yr enillion net ar ôl colledion (£30,100 *llai* £10,000)	£20,100
Llai'r swm blynyddol a eithrir	£10,100
Enillion trethadwy	£10,000
Treth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy (£10,000 x 18%)	£ 1,800

Os yw'r colledion yn *golledion rhwystredig* ac ni ellir eu didynnu o'r enillion o £30,100 yna'r sefyllfa gywir yw:

Cyfanswm yr enillion net (dim didyniad ar gyfer colledion)	£30,100
Llai'r swm blynyddol a eithrir	£10,100
Enillion trethadwy	£20,000
Treth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy (£20,000 x 18%)	£ 3,600
Cynnydd yn y Dreth Enillion Cyfalaf o ganlyniad i *golledion rhwystredig* (£3,600 llai £1,800)	£ 1,800

Rhaid i chi ddangos y cynnydd hwn ym mlwch 8 fel addasiad i'r Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy er mwyn sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir o Dreth Enillion Cyfalaf.

Eich cyfrifiannau

Paratowch gyfrifiannau eich enillion cyfalaf cyn dechrau cwblhau tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*.

Yn gyntaf, casglwch ynghyd unrhyw bapurau y gallai fod eu hangen arnoch, er enghraifft:

- cytundebau ar gyfer prynu neu werthu asedion
- anfonebau am waith y gwnaethoch i wella'r ased
- copïau o unrhyw brisiadau a gawsoch
- nodion gan froceriaid.

Yna, paratowch eich cyfrifiant i ddangos ennill neu golled. Bydd yn rhaid i chi wneud hyn ar wahân ar gyfer pob ased a werthwyd. Bydd angen eich cyfrifiannau arnom a'r tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf* wedi'u cwblhau gyda'ch ffurflen dreth. Efallai y gallwch ddefnyddio'r Daflen Waith ar dudalen CGN 21 ar gyfer eich cyfrifiant. Bydd y paragraffau nesaf yn eich helpu gyda'ch cyfrifiannau.

Gallai rhai enillion a wnaed cyn 2010-11 fod yn drethadwy yn 2010-11. Rhaid i chi gynnwys yr enillion hyn ym mlwch 31: gweler tudalen CGN 16 am fwy o wybodaeth.

Mae'r ffordd yr ewch ati i baratoi eich cyfrifiannau i fyny i chi ond efallai y bydd yn haws os dilynwch y dull a amlinellir yma. Efallai y gallwch ddefnyddio'r Daflen Waith ar dudalen CGN 21. Defnyddiwch gynifer o gopïau ag sydd eu hangen arnoch. Mae'r Daflen Waith ar gyfer cyfrifiannau enillion neu golledion syml, a gellir ei defnyddio pan waredir tir neu asedion eraill. Gallwch ei defnyddio pan waredir cyfranddaliadau hefyd, ond dim ond os yw ar gyfer gwaredu daliad cyfan o ddosbarth arbennig o gyfranddaliadau.

Ni fyddwch yn gallu defnyddio'r Daflen Waith:

- os caffaelwyd yr ased drwy arfer opsiwn, neu
- os ydy'r gwaredu yn warediad rhannol, neu
- pan fo rhaid i chi ychwanegu enillion a cholledion at ei gilydd wrth werthu unrhyw asedion er mwyn cyfrifo'r ennill cyflawn y byddwch am wneud cais am Ryddhad Mentrwr ar ei gyfer.

1. Dechreuwch gyda disgrifiad llawn o'r ased (er enghraifft, nifer, math o gyfranddaliadau a werthwyd a chyfeiriad yr adeilad neu'r tir) a *dyddiad y gwerthiant*. Os oedd y gwaredu rhwng personau cysylltiol, dylech nodi hynny.
2. Yna, nodwch *dderbyniadau'r gwerthiant* neu'r *gwerth marchnad* fel y bo'n briodol, gan ddidynnu mân gostau gwerthu'r ased i roi'r derbyniadau net ar gyfer y gwarediad.
3. Nawr nodwch ddyddiad caffael yr ased a chyfrifwch yr hyn a gostiodd yr ased i chi yn ystod cyfnod eich perchenogaeth; hynny yw, cost caffael (wedi'i ostwng gan unrhyw gais cynharach am ryddhad treth, os yn briodol) yn ogystal ag unrhyw *fân dreuliau caffael yr ased* a *chostau gwelliannau*.
4. Tynnwch gyfanswm y costau o dderbyniadau net y gwarediad i gyfrifo'r ennill neu'r golled.
5. Nodwch unrhyw ryddhad enillion cyfalaf (gweler tudalennau CGN 19 a CGN 20) rydych yn eu hawlio neu ddewisiadau a dangoswch yr ennill cyfalaf ar ôl y rhyddhad neu'r dewis.
6. Ychwanegwch at ei gilydd eich holl enillion (gan gynnwys enillion mewn blynyddoedd cynharach sy'n agored i dreth yn y flwyddyn hon) a cholledion am y flwyddyn
7. Didynnwch y colledion o'r enillion i roi'r enillion trethadwy. Defnyddiwch golledion y flwyddyn cyn y colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach. Defnyddiwch dim ond digon o golledion a ddygwyd ymlaen i ostwng cyfanswm eich holl enillion i lawr i'r *swm blynyddol a eithrir* pan fo'n ddyledus (gweler tudalen CGN 2) am y flwyddyn.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Amcangyfrifon a phrisiadau

Ar rai achlysuron efallai y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio ffigurau wedi'u hamcangyfrif – dylech nodi'n glir ar eich cyfrifiannau pa ffigurau sydd wedi eu hamcangyfrif, a pham.

Efallai y bydd angen defnyddio prisiadau, yn arbennig os byddwch yn gwerthu asedion a gafaelwyd oddi wrth, neu'n gwerthu asedion i, bobl rydych yn *gysylltiedig â* nhw, neu os gwerthwch ran o ased yn unig.

Unwaith eto, dylech nodi'n glir y defnydd o brisiadau yn eich cyfrifiannau, a dylech amgáu copi. Dylech ddweud pwy roddodd y prisiad a ph'un a oeddynt yn annibynnol ac yn gymwys i wneud hynny. Os ydych eisoes wedi gofyn i ni wirio eich prisiad drwy anfon ffurflen CG34 atom, dylech wneud hynny'n glir yn eich cyfrifiannau. Pan fo tir ac adeiladau wedi eu prisio, rhowch ddisgrifiad o'r eiddo, p'un a yw'n rhydd-ddaliadol/prydlesol, ac unrhyw denantiaethau sy'n effeithio ar eich perchnogaeth ar ddyddiad y prisiadau. Dylech atodi copi o'r cynllun os byddai hyn yn ein cynorthwyo i adnabod yr eiddo.

Efallai penderfynwn wirio eich prisiadau. Rydym yn defnyddio priswyr arbenigol i brisio amrywiaeth o asedion gan gynnwys cyfranddaliadau heb eu rhestru, tir, gweithiau celf ac ewyllys da. Os gwnawn ymholiadau ynglŷn â'ch prisiadau byddwch yn gallu trafod eich prisiadau gyda'n priswyr. Os na allwn gytuno, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol.

Ni fyddwn yn gwneud ymholiadau bob amser. Os na fyddwn yn gwneud ymholiadau ni ddylech dybio ein bod yn cytuno â'ch prisiadau.

Sut i wneud cais, dewis neu roi rhybudd ynglŷn â Threth Enillion Cyfalaf yn eich ffurflen dreth

Os ydych am wneud cais, dewis (ac eithrio dewis er mwyn gadael i golledion tramor barhau'n rhai caniataol os ydych wedi hawlio'r sail drosglwyddo: gweler CGN 5 ac 19 am fwy o wybodaeth) neu roi unrhyw rybudd (er enghraifft, ar gyfer colledion cyfalaf caniataol) at ddibenion Treth Enillion Cyfalaf yn eich ffurflen dreth, rhaid i chi roi 'X' (fel y bo'n briodol) ym mlychau 20, 26 neu 34 ar dudalennau CG 1 neu CG 2 tudalennau *Crynodeb o Enillion Cyfalaf*. Rhaid i chi hefyd ddarparu manylion pob cais, dewis (gan gynnwys dewis er mwyn gadael i golledion tramor barhau'n rhai caniataol) neu rybudd yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 35 neu yn eich cyfrifiannau gan roi datganiad clir bod cais neu ddewis yn cael ei wneud neu eich bod yn rhoi rhybudd mewn perthynas ag ennill neu golled penodol. Mae Taflenni Cymorth Treth Enillion Cyfalaf yn rhoi manylion pellach ynglŷn â sut y dylid gwneud ceisiadau neu ddewisiadau penodol mewn ffurflen dreth.

Cwblhau tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*

Rhaid i chi nodi manylion o'ch cyfrifiannau i'r tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf* gan gwblhau unrhyw flychau sy'n berthnasol i'ch enillion a cholledion ar gyfer y flwyddyn dreth. Dechreuwch drwy gwblhau'r tair adran ar wahân ar gyfer:

- *cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd* (blychau 16 i 21)
- *cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd* (blychau 22 i 27)
- *eiddo ac asedion ac enillion eraill* (blychau 28 i 35).

Yna, unwaith y bydd blychau 16 i 35 wedi eu cwblhau, llenwch yr adran grynhoi ar ddechrau'r ffurflen (blychau 3 i 15).

Os ydych am ddewis gwneud eich colledion ar asedion tramor yn golledion caniataol, bydd angen i chi gwblhau blwch 36 ar y tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*, hyd yn oed os nad ydych wedi gwaredu unrhyw beth yn ystod y flwyddyn.

Mae eich cyfrifiant ar ei ben ei hun yn annigonol, fel mae cwblhau blychai 3 i 15 yn unig, (felly peidiwch â chroesi trwy'r tudalennau neu eu nodi 'gweler yn atodedig').

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y tudalennau *Crynodeb o'r enillion cyfalaf* i gyfrifo faint o Dreth enillion Cyfalaf sy'n daladwy, os unrhyw beth, yn 2010-11. Rhaid i chi felly gwblhau holl flychau'r tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf* sy'n berthnasol i chi, hyd yn oed os dewiswch gyfrifo faint o dreth sydd arnoch.

Crynodeb o'r cyfrifiannau a amgaewyd gennych

Blwch 3 *Cyfanswm yr enillion cyn 23 Mehefin 2010*

Nodwch gyfanswm eich holl enillion a wnaed cyn 23 Mehefin 2010 cyn didynnu unrhyw golledion (ond gweler y paragraff nesaf) ond ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, dewisiadau neu hawliadau (ar wahân i'r *swm blynyddol a eithrir*). Byddai'r swm hwn yn cynnwys yr enillion o flychau 19, 25, 31 a 32.

Pan fyddwch wedi gwaredu nifer o asedion unigol, cyn 23 Mehefin 2010 ac mae'r enillion a'r colledion ar yr asedion hynny yn cael eu crynhoi er mwyn gwneud cais am Ryddhad Mentrwr, dylech gynnwys swm net yr ennill ar ôl cymhwyso'r Rhyddhad Mentrwr. Dylid nodi'r enillion net cyn 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr (hynny yw, cyn didynnu'r rhyddhad) ym mlwch 15, gweler y nodiadau ynglŷn â blwch 15 ar CGN 14. Gweler hefyd y nodiadau ynglŷn â blwch 6 isod pan ystyrir colledion wrth gyfrifo'r cyfanswm y seilir y cais ar gyfer Ryddhad Mentrwr.

Os gwnaethoch ennill yn ystod blwyddyn pan oeddech yn ddibreswyl yn y DU dros dro, ond caiff yr ennill hwnnw ei drin fel petai'n codi yn 2010-11 oherwydd eich bod wedi ailddechrau preswylio yn y DU eleni, yna dylid cynnwys yr ennill hwnnw yn y ffigur yn y blwch hwn.

Os trosglwyddwch ennill trethadwy tramor i'r Deyrnas unedig yn 2010-11 cyn 23 Mehefin 2010, yna dylai swm yr ennill a drosglwyddwyd cael ei gynnwys yn y ffigur yn y blwch hwn.

Blwch 4 *Enillion o 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr*

Nodwch gyfanswm eich holl enillion a wnaed ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr. Bydd y swm hwn yn cynnwys yr enillion o flychau 19, 25 a 31. Ni fydd yn cynnwys enillion blynyddoedd cynharach sy'n agored i dreth ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010, gweler tudalen CGN 7, gan fod rhaid cynnwys y rhain ym mlwch 5.

Pan fyddwch wedi gwaredu nifer o asedion unigol ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010, ac mae'r enillion a'r colledion ar yr asedion hynny yn cael eu crynhoi ar gyfer Rhyddhad Mentrwr, dylech gynnwys swm net yr ennill, ar ôl ychwanegu'r enillion a cholledion perthnasol at ei gilydd. Gweler hefyd yr arweiniad ynghylch blwch 6 isod pan gymerir colledion i ystyriaeth wrth gyfrifo'r cyfanswm yr hawlir Rhyddhad Mentrwr arno.

Blwch 5 *Enillion eraill o 23 Mehefin 2010*

Nodwch gyfanswm eich holl enillion (ac eithrio'r rheiny ym mlwch 4) a wnaed ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010, cyn didynnu unrhyw golledion ond ar ôl rhoi ystyriaeth i unrhyw ryddhad, dewisiadau neu geisiadau (ac eithrio'r swm blynyddol a eithrir). Byddai'r swm hwn yn cynnwys yr enillion o flychau 19, 25, 31 a 33.

Blwch 6 *Cyfanswm y colledion am y flwyddyn*

Nodwch gyfanswm eich holl golledion am y flwyddyn, a gymerwyd o'ch cyfrifiannau, gan gynnwys colledion a nodwyd ym mlwch 14, unrhyw *golledion rhwystredig* a (os yw'r sail drosglwyddo'n gymwys) cholledion caniataol sy'n codi wrth waredu asedion a leolwyd y tu allan i'r DU. Os oes gennych *golledion rhwystredig* dylech gadw cofnod ar wahân ar gyfer pob colled rwystredig a gariwyd ymlaen i flynyddoedd diweddarach i sicrhau y cânt eu didynnu'n gywir o nillion yn y dyfodol. Dylech hefyd amlygu unrhyw golledion sy'n rhwystredig a dweud pam eu bod yn rhwystredig. Os ydych

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

wedi gwaredu nifer o asedion unigol sy'n cael eu crynhoi at ei gilydd er mwyn gwneud cais am Ryddhad Mentrwr, a gwerthwyd rhai o'r asedion hyn ar golled, ni ddylid cynnwys y colledion hynny yn y blwch hwn. Byddant wedi cael eu hystyried wrth bennu'r ennill trethadwy y mae'r cais wedi ei seilio arno a bydd yr ennill trethadwy net wedi ei gynnwys yn y cyfanswm ym mlwch 3 neu 4 (gweler y nodyn ar gyfer blychau 3 a 4 dudalen CGN 12).

Blwch 7 *Colledion a ddygwyd ymlaen ac a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn*

Nodwch swm y colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach ac a ddefnyddir yn y flwyddyn. Byddwch yn defnyddio colledion a ddygwyd ymlaen dim ond er mwyn gostwng yr enillion i'r *swm blynyddol a eithrir* (pan fo'n ddyledus) am y flwyddyn. Gellir defnyddio *colledion rhwystredig* a ddygwyd ymlaen dim ond ar gyfer eu gwrthbwyso yn erbyn mathau penodol o enillion.

Blwch 8 *Addasiad i Dreth Enillion Cyfalaf*

Ni fydd y blwch hwn yn gymwys i lawer o bobl. Nodwch swm yr addasiad sydd ei angen i gynyddu neu ostwng swm y dreth enillion cyfalaf y byddwn yn ei gyfrifo ar sail yr hyn a nodwyd gennych ar y tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*, Gweler y nodiadau ar dudalen CGN 9 am fwy o fanylion. Rhaid i chi esbonio yn eich cyfrifiannau sut gafodd unrhyw addasiad ei gyfrifo. Os bydd eich addasiad yn gostwng swm y Dreth Enillion Cyfalaf sy'n daladwy, rhowch arwydd minws yn y blwch a ddarperir cyn y ffigur ar gyfer yr addasiad.

Blwch 9 *Rhwymedigaeth ychwanegol mewn perthynas ag ymddiriedolaethau sydd heb eu sefydlu yn y DU neu sydd â phreswyl deublyg*

Ni fydd y blwch hwn yn gymwys i lawer o bobl. Y swm i'w nodi yn y blwch hwn yw swm ychwanegol o dreth. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu hwn os byddwch yn agored i dreth ar enillion fel buddiolwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU ac mae bwlch rhwng yr adeg pan fo'r ennill yn codi a chithau'n derbyn taliad neu fudd o'r ymddiriedolaeth. Os credwch fod hyn yn gymwys i chi, gofynnwch am Daflen Gymorth 301 *Beneficiaries receiving capital payments from non-resident trusts: calculation of the increase in tax charge* er mwyn cyfrifo swm y dreth i'w roi yn y blwch hwn.

Blwch 10 *Colledion sydd ar gael i'w cario ymlaen i flynyddoedd diweddarach*

Nodwch yma gyfanswm yr holl golledion nas defnyddiwyd sydd ar gael yn y flwyddyn ac o flynyddoedd cynharach, i'w cario ymlaen i flynyddoedd diweddarach. Dylech gynnwys unrhyw *golledion rhwystredig* nas defnyddiwyd. I sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir mewn blynyddoedd i ddod dylech gadw cofnod ar wahân ar gyfer pob *colled rhwystredig* nas defnyddiwyd. Dylech gadw cofnodion ar wahân hefyd o'r colledion nas defnyddiwyd a hawliwyd ar gyfer 1996-97 yn ogystal â blynyddoedd diweddarach ac ar gyfer 1995-96 a blynyddoedd cynharach.

Blwch 11 *Colledion a ddefnyddiwyd yn erbyn ennill o flwyddyn gynharach*

Mae'r blwch hwn yn gymwys mewn amgylchiadau prin iawn yn unig. Esbonnir yr achos mwyaf cyffredin yn Nhaflen Gymorth 282 *Death, personal representatives and legatees*. Ceir fwy o wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan ellir cario colledion yn ôl i flynyddoedd cynharach yn ein llawlyfr ar gyfer enillion cyfalaf yn **www.hmrc.gov.uk**

Blychau 12 a 13

Ni fydd y blychau hyn yn gymwys i'r rhan fwyaf o bobl oherwydd ni allwch fel arfer wrthbwyso colledion cyfalaf yn erbyn incwm. Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan fyddwch yn gallu yn Nhaflen Gymorth 286 *Negligible value claims and Income Tax losses on disposals you have subscribed for in qualifying trading companies* a Thaflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax*.

Blwch 14 *Colledion incwm o 2010-11 a osodwyd yn erbyn enillion*

Ni fydd y blwch hwn yn gymwys i'r rhan fwyaf o bobl. Nodwch yma'r swm ar gyfer unrhyw golledion masnachu caniataol, colledion sy'n deillio o osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu, rydych am eu gosod yn erbyn enillion trethadwy ac sydd wedi eu cynnwys ym mlwch 4.

Dylech nodi'r isaf o'r canlynol yn unig:
- cyfanswm y colledion y gallwch eu hawlio, ac
- y swm sydd ei angen i ostwng ffigurau'r enillion i sero, ar ôl gwrthbwyso'r colledion cyfalaf am y flwyddyn.

Mae Taflen Gymorth 227 *Losses* yn rhoi fwy o wybodaeth ynglŷn â cholledion masnachu a llety gwyliau wedi'i ddodrefnu.

Blwch 15 *Enillion cyn 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Rhyddhad Mentrwr*

Mae'r blwch hwn yn gymwys dim ond i enillion a wnaed cyn 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr. Nodwch swm yr enillion cymwys yr hawlir Rhyddhad Mentrwr arno a chyn y gostyngiad ⅘ - gweler y nodiadau ar dudalennau CGN 7 a CGN 8. Y terfyn oes ar gyfer ceisiadau ar enillion cymwys yw £2m ar gyfer enillion a wnaed ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 a chyn 23 Mehefin 2010.

Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd

Blwch 16 *Nifer y gwarediadau*

Nodwch yma nifer y gwarediadau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 o *gyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd*. At ddibenion y blwch hwn dylech gyfrif holl warediadau cyfranddaliadau neu warantau o'r un dosbarth yn yr un cwmni a wnaed ar yr un diwrnod fel yr un gwarediad. Anwybyddwch warediadau na wnewch ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau a wnewch fel ymddiriedolwr.

Blwch 17 *Derbyniadau'r gwaredu*

Nodwch gyfanswm y derbyniadau gwaredu ar gyfer yr holl *gyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd* cyn caniatáu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mewn rhai amgylchiadau dylid disodli'r swm a gewch ac a gynhwysir yn y cyfrifiad gan *werth marchnad* yr ased a waredwyd gennych.

Blwch 18 *Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu'r ased)*

Nodwch gyfanswm y costau caniataol a fydd fel arfer yn cynnwys pris prynu'r ased, unrhyw *fân gostau sydd ynghlwm wrth y prynu a'r gwerthu*, ac unrhyw *gostau am welliannau*.

Blwch 19 *Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion*

Nodwch yma gyfanswm yr holl enillion ar gyfer y *cyfranddaliadau a'r gwarantau a restrwyd*. Dylai'r ffigur hwn gynrychioli'r enillion ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau ond cyn didynnu unrhyw golledion (ac eithrio pan fo colledion wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r ennill trethadwy yr ydych yn hawlio Rhyddhad Mentrwr ar ei gyfer, gweler blychau 3, 4 a 6).

Blwch 20 *Os ydych yn hawlio neu'n gwneud dewis*

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os caiff unrhyw warediad yn yr adran hon ei effeithio gan hawliad neu ddewis o ran Treth Enillion Cyfalaf.

Blwch 21 *Os yw eich cyfrifiannau'n cynnwys amcangyfrifon neu brisiadau*

Os rhowch 'X' yn y blwch hwn dylech roi manylion pellach yn eich cyfrifiant, gweler tudalen CGN 11.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd

Blwch 22 *Nifer y gwarediadau*

Nodwch yma nifer y gwarediadau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 o *gyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd*. At ddibenion y blwch hwn dylech gyfrif holl warediadau cyfranddaliadau a gwarantau o'r un dosbarth yn yr un cwmni a wnaed ar yr un diwrnod fel yr un gwarediad. Anwybyddwch warediadau na wnewch ar eich rhan eich hun, er enghraifft, gwarediadau fel ymddiriedolwr.

Blwch 23 *Derbyniadau'r gwaredu*

Nodwch gyfanswm y derbyniadau gwaredu ar gyfer yr holl *gyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd* cyn caniatáu unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau. Mewn rhai amgylchiadau dylid disodli'r swm a gewch ac a gynhwysir yn y cyfrifiad gan *werth marchnad* yr ased a waredwyd gennych.

Blwch 24 *Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu'r ased)*

Nodwch gyfanswm y costau caniataol a fydd fel arfer yn cynnwys pris prynu'r ased, unrhyw *fân gostau sydd ynghlwm wrth brynu a gwerthu'r* ased ac unrhyw *gostau am welliannau*.

Blwch 25 *Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion*

Nodwch yma gyfanswm yr holl enillion ar gyfer y *cyfranddaliadau a'r gwarantau nas rhestrwyd*. Dylai'r ffigur hwn gynrychioli'r enillion ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau ond cyn didynnu unrhyw golledion (ac eithrio pan fo colledion wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r ennill trethadwy yr ydych yn hawlio Rhyddhad Mentrwr ar ei gyfer, gweler blychau 3, 4 a 6).

Blwch 26 *Os ydych yn hawlio neu'n gwneud dewis*

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os caiff unrhyw warediad yn yr adran hon ei effeithio gan hawliad neu ddewis o ran Treth Enillion Cyfalaf yn y ffurflen dreth hon.

Blwch 27 *Os yw eich cyfrifiannau'n cynnwys amcangyfrifon neu brisiadau*

Os rhowch 'X' yn y blwch hwn dylech roi manylion pellach yn eich cyfrifiant – gweler tudalen CGN 11.

Eiddo ac asedion ac enillion eraill

Blwch 28 *Nifer y gwarediadau*

Nodwch yma nifer y gwarediadau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 o eiddo ac asedion eraill. Ni ystyrir enillion priodoledig yn warediadau ac ni ddylid eu cynnwys yng nghyfanswm y gwarediadau a gynhwysir yma. Os ydych wedi gwaredu nifer o asedion unigol a ystyrir gyda'i gilydd er mwyn cyfrifo'r ennill cyfalaf yr ydych yn hawlio Rhyddhad Mentrwr ar ei gyfer, yna cyfrifwch pob gwarediad o ased a gymerir i ystyriaeth.

Blwch 29 *Derbyniadau'r gwaredu*

Nodwch gyfanswm y derbyniadau gwaredu ar gyfer yr holl eiddo ac asedion eraill cyn caniatáu rhyddhad neu hawliadau. Mewn rhai amgylchiadau dylid disodli'r swm a gewch ac a gynhwysir yn y cyfrifiad gan *werth marchnad* yr ased a waredwyd gennych.

Blwch 30 *Costau caniataol (gan gynnwys pris prynu'r ased)*

Nodwch gyfanswm y costau caniataol a fydd fel arfer yn cynnwys pris prynu'r ased, unrhyw *fân gostau sydd ynghlwm wrth y prynu a'r gwerthu* ac unrhyw *gostau am welliannau*.

Blwch 31 *Enillion yn y flwyddyn, cyn colledion*

Nodwch yma gyfanswm yr holl enillion ar gyfer gwaredu eiddo ac asedion eraill. Dylai'r ffigur hwn gynrychioli'r enillion ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw ryddhad, hawliadau neu ddewisiadau ond cyn didynnu unrhyw golledion (ac eithrio pan fo colledion wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r ennill trethadwy yr ydych yn hawlio Rhyddhad Mentrwr ar ei gyfer, gweler blychau 3, 4 a 6). Dylech gynnwys yn ogystal:

- enillion a briodolir i chi pan ellir gwrthbwyso colledion personol (gweler tudalennau CGN 3, CGN 5 a CGN 6)
- enillion blynyddoedd cynharach sy'n dod yn drethadwy yn y flwyddyn hon (gweler tudalennau CGN 6 a CGN 9 am fwy o wybodaeth), ac
- enillion wrth adennill rhai benthyciadau a thaliadau gwarantu penodol (gweler Taflen Gymorth 296 *Debts and Capital Gains Tax*).

Sylwer nad yw enillion yn y rhestr uchod yn codi o ganlyniad i waredu ased yn y flwyddyn ac ni ddylid cynnwys ffigur ar gyfer enillion o'r fath ym mlwch 29.

Blwch 32 *Enillion priodoledig cyn 23 Mehefin 2010 pan na ellir gwrthbwyso colledion personol*

Mae'r blwch hwn yn gymwys mewn amgylchiadau prin iawn – gweler tudalennau CGN 2 a CGN3. Nodwch swm unrhyw enillion gan ymddiriedolwyr a briodolir i chi cyn 23 Mehefin 2010 fel buddiolwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU sydd wedi derbyn taliadau cyfalaf neu fuddion.

Blwch 33 *Enillion priodoledig o 23 Mehefin 2010 pan na ellir gwrthbwyso colledion personol*

Mae'r blwch hwn yn gymwys mewn amgylchiadau prin iawn – gweler tudalennau CGN 2 a CGN3. Nodwch swm unrhyw enillion gan ymddiriedolwyr a briodolir i chi ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010 fel buddiolwr ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU sydd wedi derbyn taliadau cyfalaf neu fuddion.

Blwch 34 *Os ydych yn hawlio neu'n gwneud dewis*

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os caiff unrhyw warediad yn yr adran hon ei effeithio gan hawliad neu ddewis o ran Treth Enillion Cyfalaf a wneir yn y ffurflen dreth hon.

Blwch 35 *Os ydy'ch cyfrifiannau'n cynnwys amcangyfrifon neu brisiadau*

Os rhowch 'X' yn y blwch hwn rhowch fanylion pellach yn eich cyfrifiant – gweler tudalen CGN 11.

Blwch 36 *Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon*

Os hoffech ychwanegu unrhyw wybodaeth at eich cyfrifiannau, dylech ei nodi ym mlwch 36. Er enghraifft, dylech ddefnyddio'r blwch hwn i ddweud wrthym os ydych yn bwriadu gwneud dewis ar gyfer eich colledion ar asedion tramor er mwyn iddynt fod yn golledion caniataol drwy ysgrifennu "Yr wyf yn gwneud dewis fel bod fy ngholledion tramor yn cael eu hystyried yn golledion caniataol." Anfonwch atom eich cyfrifiannau, prisiadau a ffurflenni hawliadau penodol ynghyd â thudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf* eich ffurflen dreth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Atodiadau

Rhestr termau

Swm blynyddol a eithrir

Fel arfer ni fyddwch yn talu Treth Enillion Cyfalaf ar £10,100 cyntaf eich enillion trethadwy (ar ôl didynnu colledion) am y flwyddyn dreth 2009-10. Gelwir y swm hwn y 'swm blynyddol a eithrir.' Nid oes hawl gennych i'r *swm blynyddol a eithrir* ar gyfer 2010-11 os nad yw eich domisil yn y DU ac rydych yn hawlio i gael eich treth ar y sail trosglwyddo ar gyfer 2010-11. Hefyd, os ydych mewn blwyddyn sydd i ddod yn trosglwyddo ennill trethadwy tramor a gronnodd mewn blwyddyn pan nad oedd y *swm blynyddol a eithrir* yn ddyledus, yna ni ellir gosod y swm blynyddol a eithrir yn erbyn yr ennill hwnnw a drosglwyddwyd yn y flwyddyn sydd i ddod. Gweler y nodiadau *Residence, remittance basis etc.*, am fwy o wybodaeth.

Dyddiad gwerthu

Os oedd y gwerthiant neu'r gwarediad trwy gontract, fel arfer dyddiad y gwerthiant fydd dyddiad y contract. Er enghraifft, rydych yn gwerthu tŷ drwy gyfnewid contractau ar 25 Mawrth 2011 ac yn cwblhau ar 9 Ebrill 2011; mae'r gwaredu yn digwydd yn y flwyddyn dreth 2010-11, nid 2011-12. Os yn anarferol mae'r contract yn un amodol, ac felly rhaid diwallu un neu ragor o amodau cyn i'r contract fod yn un cyfrwymol, dyddiad y gwerthiant fydd y dyddiad pan fodlonir yr amod olaf.

Pan na fydd contract yn bodoli, dyddiad y gwerthiant fydd pan drosglwyddir y berchenogaeth. Neu, os cewch swm cyfalaf o'r ased ond ni fyddwch yn ei waredu, caiff y dyddiad pan dderbyniwch yr arian ei drin fel dyddiad y gwaredu. Ar gyfer 2010-11 efallai y bydd angen i chi ystyried p'un a yw'r dyddiad gwerthu yn ystod 2010-11, ac os felly, p'un a yw cyn 23 Mehefin 2010 neu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Gweler hefyd y nodiadau ar dudalen CGN 8 am reolau trosiannol ar gyfer rhai enillion yn 2010-11.

Gwerth marchnad

Gwerth marchnad yw'r pris y disgwylid yn rhesymol i ased gael ei werthu ar y farchnad agored ar y dyddiad y caiff ei waredu neu ei gaffael. Defnyddiwch y *gwerth marchnad* yn lle'r pris a gewch os gwnaethoch roi ased am ddim, ei werthu yn fwriadol am bris a oedd yn fwy neu'n llai na'i werth llawn, neu os gwnaethoch ei waredu i berson cysylltiol. Bydd *gwerth marchnad* yn berthnasol hefyd pan fyddwch wedi caffael yr ased mewn amgylchiadau tebyg i'r gwarediadau uchod, os ydych wedi etifeddu'r ased neu wedi cael hawl absoliwt i eiddo setledig.

Ar gyfer cyfranddaliadau a gwarantau a restrir ar Restr Swyddogol Ddyddiol y Gyfnewidfa Stoc, y *gwerth marchnad* mewn amgylchiadau arferol yw'r isaf o:
- ffigur un chwarter yn uwch na'r isaf o'r ddau bris yn y dyfynbris ar gyfer y diwrnod perthnasol, ac
- y ffigur hanner ffordd rhwng y pris uchaf a'r pris isaf ar gyfer bargeinion a gofnodwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Derbyniadau'r gwerthu

Gallai derbyniadau gwerthiant neu warediad gynnwys:
- arian parod, sy'n daladwy nawr neu yn y dyfodol, neu unrhyw beth a ellir ei droi yn arian parod oni bai ei fod yn drethadwy fel incwm
- gwerth ased a dderbyniwyd yn gyfnewid am yr ased a waredwyd gennych
- gwerth hawl i dderbyn taliadau yn y dyfodol pan nad ydych mewn sefyllfa i wybod y swm hwnnw ar ddyddiad y gwarediad.

Os gwyddoch yr hyn a gewch ar ôl dyddiad y gwarediad, dylech gynnwys y cyfanswm yn eich cyfrifiant nawr. Os daw yn glir yn hwyrach nad ydych yn debyg o dderbyn peth o'r arian, gallwch wneud cais i addasu'r cyfrifiad. Os caiff y derbyniadau gwaredu a gynhwyswyd yn eich cyfrifiant eu talu mewn rhandaliadau dros gyfnod sy'n hwy na 18 mis efallai na fydd yn rhaid i chi dalu'r holl dreth nawr – dylech gysylltu â ni.

Mân gostau gwaredu/gwerthu a mân gostau caffael

Gallwch ddidynnu rhai costau gwaredu a symiau sy'n ychwanegu at y gost o brynu ased cyhyd a'u bod mewn gwirionedd ar gyfer gwaredu neu gaffael yr ased. Mae'r costau'n cynnwys:

- ffioedd, comisiwn neu daliad am gyngor proffesiynol
- cost trosglwyddo neu drawsgludiad
- treth stamp a threth dir y tollau stamp
- costau hysbysebu
- costau prisio er mwyn cyfrifo ennill wrth waredu.

Os oedd bywyd disgwyliadwy'r ased yn 50 mlynedd neu lai, gellir cyfyngu'r costau a'r treuliau caniataol i adlewyrchu gweddill bywyd yr ased.

Cost caffael

Cost caffael ased yw'r swm a dalwch, neu mewn rhai achosion penodol, ei *werth marchnad*, er mwyn caffael yr ased. Os gwnaethoch greu'r ased eich hun, (er enghraifft, ewyllys da mewn busnes), costau creu'r ased, os oedd costau.

Costau gwelliannau

Cost gwella gwerth ased cyhyd a bod y gwelliant hwnnw yn parhau i gael ei adlewyrchu yn yr ased ar yr adeg y'i gwerthwyd.

Cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd

At ddibenion cwblhau'r tudalennau hyn yn unig, mae 'cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd' yn golygu unrhyw yn o'r canlynol:

- cyfranddaliadau neu warantau cwmni a oedd wedi'i restru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig trwy gydol yr amser yr oeddech yn eu perchen – gan anwybyddu unrhyw gyfnod pan gawsant eu hatal dros dro rhag cael eu rhestru – ewch i **www.hmrc.gov.uk** am fwy o fanylion
- cyfranddaliadau mewn cwmni a oedd yn gwmni buddsoddi penagored (OEIC) y DU trwy gydol y cyfnod yr oeddech yn eu perchen
- unedau mewn ymddiriedolaeth unedol awdurdodedig, trwy gydol y cyfnod yr oeddech yn eu perchen.

Cyfranddaliadau a gwarantau nas rhestrwyd

At ddibenion y tudalennau hyn yn unig, unrhyw gyfranddaliadau neu warantau nad ydynt o fewn y diffiniad ar gyfer 'cyfranddaliadau a gwarantau a restrwyd' a welir uchod. Ystyrir bod cyfranddaliadau mewn cwmnïau'r Farchnad Buddsoddi Amgen (AIM) yn rhai "heb eu rhestru".

Colledion rhwystredig

Y math mwyaf cyffredin o golled rwystredig yw colled sy'n codi wrth waredu i berson cysylltiol. Gellir gosod y colledion hyn yn unig yn erbyn enillion sy'n codi ar warediadau i'r un person cysylltiol (gweler tudalen CGN 4). Colled rwystredig arall yw colled a drosglwyddir i chi gan ymddiriedolwr ar ôl 15 Mehefin 1999 pan fyddwch yn derbyn hawl absoliwt i eiddo setledig. Gellir gosod y colledion hyn yn erbyn enillion sy'n codi ar yr un ased neu ar ased sy'n deillio o'r ased hwnnw yn unig, a rhoddir blaenoriaeth i'r colledion hyn.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Rhyddhad Enillion Cyfalaf (a dewisiadau)

Rhaid gwneud cais ar gyfer ambell ryddhad a rhaid i chi ddatgan eich cais yn glir ar y cyfrifiant a amgaewch. Caiff unrhyw hysbysiad o golled a wnewch wrth werthu ased a roddwch i ni yn cael ei drin fel petai'n hawliad. Rhaid gwneud rhai hawliadau ar ffurflen gais ar wahân y byddwch yn ei chwblhau a'i hamgáu gyda'ch ffurflen dreth ynghyd â'ch cyfrifiant. Gellir hawlio eraill, er enghraifft *Rhyddhad Preswyl Preifat,* heb yr angen i wneud cais. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch am wneud 'dewis', er enghraifft ar gyfer sail drosglwyddo (colledion tramor). Rhaid i chi wneud eich dewis trwy ddatgan yn glir ar y cyfrifiant a amgaewch.

Rydym yn esbonio'n fyr yma yn unig rhai o'r dewisiadau a rhyddhad. Ceir arweiniad manylach yn **www.hmrc.gov.uk** neu yn ein taflenni cymorth.

Rhyddhad Preswyl Preifat – gweler tudalen CGN 4 a Thaflen Gymorth 283 *Private Residence Relief.*

Hawliad y sail drosglwyddo – os nad oedd eich domisil yn y DU, roedd enillion a gododd cyn 6 Ebrill 2008 ar asedion a leolwyd y tu allan i'r DU dim ond yn cael eu trethu pan fyddent yn cael eu derbyn yn y DU. Roedd y driniaeth hon yn un awtomatig. Ar ôl 5 Ebrill 2008 nid yw'r driniaeth 'sail drosglwyddo' hon o anghenraid yn un awtomatig: efallai y bydd angen i chi wneud cais os byddwch am i'r driniaeth 'sail drosglwyddo' gael ei defnyddio yn eich achos chi mewn blwyddyn benodol. Mae'r nodiadau *Residence, remittance basis etc.,* yn esbonio hyn yn llawn.

Y Sail drosglwyddo (colledion tramor) – os ydych yn hawlio cael eich trethu ar y sail drosglwyddo, ni fydd colledion ar asedion sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r DU fel arfer yn golledion caniataol. Fodd bynnag, yn y flwyddyn dreth gyntaf pan fyddwch yn gwneud cais o'r fath, gallwch wneud 'dewis' di-alw'n-ôl, i ganiatáu'r 'colledion tramor' hyn yn erbyn enillion trethadwy, yn amodol ar rai rheolau. Mae'r *nodiadau ar gyfer Residence, remittance basis etc.* yn esbonio hyn yn llawn. Os ydych am wneud dewis yn y ffurflen dreth hon, dylech wneud hynny ym mlwch 36 (Unrhyw wybodaeth arall) neu yn y cyfrifiannau a amgaeir gennych. Rhaid i chi ddatgan yn glir eich bod yn gwneud y dewis a gallwch wneud hyn drwy ysgrifennu 'Yr wyf yn gwneud dewis fel bod fy ngholledion tramor yn cael eu hystyried yn golledion caniataol.'

Rhyddhad treigl – mae hwn yn caniatáu enillion sy'n codi wrth waredu asedion busnes i gael eu gohirio os bydd angen asedion yn eu lle. Mae Taflen Gymorth 290 *Business asset roll-over relief* yn esbonio hwn yn llawn ac yn cynnwys ffurflen gais.

Rhyddhad daliol ar roddion – mae hwn yn caniatáu gohirio enillion pan roddir rhai asedion penodol am lai na'u gwerth marchnad. Mae Taflen Gymorth 295: *Relief for gifts and similar transactions* yn esbonio hyn yn llawn ac yn cynnwys y ffurflen gais berthnasol sy'n rhaid i chi ei chwblhau.

Rhyddhad perthynas dibynnol – mae hwn yn caniatáu rhyddhad pan fyddwch yn gwaredu cartref a ddarparwyd gennych ar gyfer perthynas dibynnol cyn 6 Ebrill 1988. Os ydych yn hawlio'r rhyddhad hwn dylech nodi hyn yn glir yn eich cyfrifiant. Mae Taflen Gymorth 283 *Private residence relief* yn rhoi mwy o fanylion.

Rhyddhad Mentrwr – mae hwn yn caniatáu rhyddhad ar enillion pan waredir rhai asedion busnes gan unigolion. Mae Taflen Gymorth 275 *Entrepreneurs' Relief* yn rhoi fwy o fanylion. Ar gyfer gwarediadau cymwys yn 2010-11 a wnaed cyn 23 Mehefin 2010, mae Entrepreneurs' Relief yn gostwng enillion cymwys gan ⅘ gyda'r ⅕ sy'n weddill yn agored i Dreth Enillion Cyfalaf ar y gyfradd sengl o 18%. Codir treth ar gyfradd o 10% ar warediadau cymwys a wnaed ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010. Nid yw'r gostyngiad ⅘ blaenorol bellach yn gymwys o'r dyddiad hwnnw. Mae swm enillion cyfalaf unigolyn a all gymhwyso ar gyfer Entrepreneurs' Relief yn destun cyfyngiad oes o £2m ar gyfer gwarediadau yn 2010-11 cyn 23 Mehefin 2010 (£1m ar gyfer gwarediadau cyn 6 Ebrill 2010) a £5m ar gyfer gwarediadau a wnaed ar neu ar ôl 23 Mehefin 2010.

Gwaredu Cynllun Buddsoddiad Menter ac Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro – gweler Taflen Gymorth 297 *Enterprise Investment Schemes and Capital Gains Tax* a Thaflen Gymorth 298 *Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*, sy'n sôn wrthych sut i hawlio'r rhyddhad hwn.

Enillion na ellir eu trosglwyddo ac enillion sy'n dod yn drosglwyddadwy – mae'r ddau yn cyfeirio at warediadau a wnaed dramor, ac rydych naill ai yn gwneud cais i beidio cael eich trethu gan ei fod yn amhosibl trosglwyddo'r ennill i'r DU, neu rydych wedi gwneud cais yn flaenorol ac rydych bellach yn gallu trosglwyddo'r ennill i'r DU. Os cewch eich effeithio gan un ohonynt, dylech gysylltu â ni.

Cais am werth dibwys – gweler Taflen Gymorth 286 *Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subscribed for in qualifying trading companies* sy'n dweud wrthych sut i wneud cais pan fod gwerth ased rydych yn ei berchen ar adeg eich cais wedi mynd yn ddibwys fel y cewch eich trin fel petaech wedi gwaredu'r ased. Os ydych yn gwneud cais dylech ddatgan hyn yn glir yn y cyfrifiant o'ch enillion neu eich colledion mewn perthynas â'r ased sy'n cael ei waredu.

Rhyddhad am dreth dramor a dalwyd – os taloch dreth mewn gwlad dramor ar ennill a wnaed dramor ac rydych am hawlio credyd yn erbyn treth y DU – gweler Taflen Gymorth 261 *Foreign Tax Credits Relief: capital gains*.

Rhyddhad gosod – os mai dim ond Rhyddhad Preswyl Preifat rannol a gewch oherwydd eich bod wedi gosod eich cartref cyfan neu ran ohono fel llety preswyl, efallai y gallwch hawlio rhyddhad pellach – gweler Taflen Gymorth 283: *Private Residence Relief*.

Rhyddhad Ymgorffori Busnes – mae hwn yn gohirio ennill pan drosglwyddir busnes i gwmni, gweler Taflen Gymorth 276 *Incorporation Relief*.

Rhyddhad ar rai gwarediadau o gyfraniadau i ymddiriedolwyr cynllun annog perchnogaeth cyfraniadau cymeradwy – os credwch fod hawl gennych dderbyn y rhyddhad hwn gweler Taflen Gymorth 287 *Employee share and security schemes and Capital Gains Tax*.

Taflen Waith y cyfrifiant – cwblhewch un daflen ar gyfer pob ased a werthwyd

Disgrifiad o'r ased – *er enghraifft math a nifer y cyfranddaliadau a werthwyd neu gyfeiriad yr eiddo*

Dyddiad gwerthu *DD MM BBBB*

Derbyniadau'r gwaredu/gwerthiant neu werth marchnad *os yn briodol* A £

Mân gostau'r gwaredu/gwerthiant B £

Derbyniadau net y gwaredu *blwch A llai blwch B* C £

Dyddiad caffael *DD MM BBBB*

Cost neu'r gwerth ar 31 Mawrth 1982 *gweler tudalen CGN5* D £

Mân gostau caffael E £

Costau gwelliannau F £

Cyfanswm y costau *blychau D + E + F* G £

Ennill neu golled *blwch C llai blwch G* H £

Dewisiadau neu ryddhad enillion cyfalaf *nid y swm blynyddol a eithrir* a disgrifiad I £

Ennill net *blwch H llai blwch I* J £

Taflenni Cymorth Enillion Cyfalaf

Taflen Gymorth 261	*Foreign tax credit relief: capital gains*
Taflen Gymorth 275	*Entrepreneurs' relief*
Taflen Gymorth 276	*Incorporation relief*
Taflen Gymorth 278	*Temporary non-residents and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 281	*Husband and wife, civil partners, divorce, dissolution and separation*
Taflen Gymorth 282	*Death, personal representatives and legatees*
Taflen Gymorth 283	*Private residence relief*
Taflen Gymorth 284	*Shares and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 285	*Share reorganisations, company take–overs and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 286	*Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subscribed for in qualifying trading companies*
Taflen Gymorth 287	*Employee share and security schemes and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 288	*Partnerships and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 290	*Business asset roll-over relief*
Taflen Gymorth 292	*Land and leases, the valuation of land and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 293	*Chattels and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 294	*Trusts and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 295	*Relief for gifts and similar transactions*
Taflen Gymorth 296	*Debts and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 297	*Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 298	*Venture capital trusts and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 299	*Non-resident trusts and Capital Gains Tax*
Taflen Gymorth 301	*Beneficiaries receiving capital payments from non-resident trusts: calculation of the increase in tax charge*

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio. Gellir gweld unrhyw newidiadau dilynol i'r nodiadau hyn yn **www.hmrc.gov.uk**